## Papur Gwyrdd Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd: Dogfen Gryno

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn rhoi sylw i amryw o bynciau cyfredol sy'n ymwneud ag ansawdd gwasanaethau iechyd a dulliau llywodraethu a swyddogaethau'r GIG yng Nghymru.

**Ansawdd** – darparu'r gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn.

**Llywodraethu** – sefydliadau yn gwneud penderfyniadau gwybodus ar ran y bobl y maent yn eu gwasanaethu, a bod yn atebol i'r bobl hynny.

**Swyddogaethau** – y pethau y gall sefydliadau eu gwneud yn ôl y gyfraith i ddarparu eu gwasanaethau.

Mae'r Papur Gwyrdd yn amlinellu'r sefyllfa bresennol a'r heriau rydym yn eu hwynebu ac yn gofyn beth arall y gallwn ni ei wneud i wella. Oherwydd ehangder y problemau hyn, mae hon yn ddogfen fawr. Er ein bod yn annog pawb i ddarllen y Papur Gwyrdd yn ei gyfanrwydd a gwneud sylwadau mor eang â phosibl, rydym yn cydnabod y bydd gan wahanol bobl ddiddordeb mewn gwahanol faterion.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r materion sy'n cael sylw yn y Papur Gwyrdd fel y gallwch chi nodi a darllen y rhannau sydd o ddiddordeb i chi.

Mae'r adran isod yn amlinellu elfennau allweddol pob pennod. Dylai hyn eich helpu i ddod o hyd i'r materion rydych chi am ddarllen amdanynt a'r trafodaethau rydych chi am fod yn rhan ohonynt.

### Rhan 1: Ansawdd yn Gyntaf

Pennod 1: Gweddnewid Gwasanaethau Iechyd – mae'r bennod hon yn edrych ar batrwm newidiol gwasanaethau iechyd yng Nghymru a sut rydym yn symud tuag at system o ofal iechyd ataliol, lle byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo dewisiadau iach ac atal salwch, yn hytrach na thrin salwch yn unig. Mae'n cwestiynu sut y gellid defnyddio deddfwriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Mae hefyd yn edrych ar sut y gall y cyhoedd wneud cyfraniad mwy effeithiol at gynllunio gwasanaethau'r GIG a sut y dylid cyflwyno newidiadau mewn gwasanaethau.

Pennod 2: Galluogi Ansawdd – mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar sut y gellid defnyddio deddfwriaeth i sicrhau mai ansawdd yw'r brif ystyriaeth i bawb sy'n gweithio yn y GIG a sut y dylai ansawdd gael ei adlewyrchu yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu.

Pennod 3: Ansawdd mewn Ymarfer – mae'r bennod hon yn ystyried y defnydd o safonau cyffredin ar draws holl ddarparwyr gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau o safon uchel ac yn darparu'r gofal a'r profiad claf rydym yn eu disgwyl. Mae'r bennod

hon hefyd yn edrych ar sut y gall goruchwyliaeth gan gymheiriaid clinigol helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i ddysgu, trafod a rhannu modelau arfer gorau.

Pennod 4: Bod yn agored a gonest ym mhopeth a wnawn – mae'r bennod hon yn pwysleisio pwysigrwydd bod yn agored a gonest pan mae rhywbeth yn mynd o'i le. Er ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn gyda'r mater hwn, mae'r papur yn cwestiynu sut y gellir defnyddio deddfwriaeth i wella tryloywder a gonestrwydd ynglŷn â pherfformiad yn GIG Cymru. Mae'r bennod hon hefyd yn edrych ar sut i drafod pryderon mewn system fwyfwy integredig ac a ellid gwneud gwelliannau i'r dull o ymchwilio ar y cyd i gwynion ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Pennod 5: Gwell gwybodaeth, wedi'i rhannu'n ddiogel – mae'r bennod hon yn edrych ar sut y gall y GIG rannu gwybodaeth am gleifion yn fwy effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau cydgysylltiedig a gofal o'r safon uchaf i unigolion. Mae'r bennod hon hefyd yn gofyn am eich barn ar ddefnyddio gwybodaeth am gleifion at ddibenion eraill, megis ymchwil.

Pennod 6: Cadw cydbwysedd – mae'r bennod hon yn ystyried y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwasanaethau iechyd yn allanol. Mae'n nodi'r angen i ailystyried y trefniadau rheoleiddio ac arolygu mewn lleoliadau gofal iechyd, yng ngoleuni argymhellion a wnaed yn adolygiad Marks o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a'r newidiadau a gynigiwyd gan Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae'r bennod yn codi cwestiynau ynglŷn â'r bwriad i uno Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae hefyd yn ystyried a oes angen i Gynghorau Iechyd Cymuned newid er mwyn cynrychioli cleifion a'r cyhoedd yn fwy effeithiol.

**Rhan 2 – Sefydliadau Cadarn, Llywodraethu Cadarn**

Pennod 7: Cyllid, Swyddogaethau a Chynllunio'r GIG – mae'r bennod hon yn disgrifio sut y cyflwynodd y gwaith o ddiwygio'r GIG yn 2009 strwythur llywodraethu ac atebolrwydd newydd, ac mae'n nodi efallai y bydd angen newid deddfwriaethol i adlewyrchu anghenion presennol sefydliadau'r GIG. Mae'n canolbwyntio ar faterion ariannol, gan gynnwys a yw byrddau iechyd angen pwerau benthyg i gael mynediad at wahanol ffynonellau cyllid ac a yw'r gofyniad i Lywodraeth Cymru baratoi cyfrifon cryno statudol ar gyfer byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ychwanegu gwerth o hyd. Mae'r bennod hon hefyd yn ystyried gwahanol ddyletswyddau cynllunio sefydliadau'r GIG ac yn cwestiynu'r angen i sicrhau bod dyletswyddau cynllunio yn cyfateb i'w gilydd i osgoi dyblygu.

Pennod 8: Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Phartneriaethau – mae'r bennod hon yn edrych ar sut i wella fframwaith llywodraethu presennol y GIG. Mae'n archwilio maint a ffurfweddiad aelodaeth bwrdd byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, yn ogystal â rôl ysgrifennydd y bwrdd fel cynghorydd i'r bwrdd. Mae'r bennod hon hefyd yn archwilio gwaith partneriaeth o ran sicrhau a rhannu cyngor clinigol proffesiynol a'r trefniadau gwaith partneriaeth ehangach ar lefel y DU. Mae hefyd yn ystyried trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd gwasanaethau a gynhelir a chydwasanaethau ac a ddylai rôl Partneriaethau Cydwasanaethau GIG Cymru gwmpasu'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

**Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Gan fod gan ganlyniad yr ymgynghoriad hwn y potensial i lywio deddfwriaeth yn y dyfodol, rydym am gasglu cymaint o safbwyntiau ac ymatebion â phosibl.

Mae'r ffurflen ymateb yn cynnwys holl gwestiynau'r Papur Gwyrdd, gyda lle i nodi'ch safbwyntiau. Rydym yn cydnabod na fydd gan bawb farn ar bob mater yn y Papur Gwyrdd, ond nid ydym am i hyn eich atal rhag ymateb. Rydym yn eich annog i fynegi eich barn ar y materion hynny sydd o bwys i chi, hyd yn oed os mai dim ond un o'r penodau uchod sydd o ddiddordeb i chi.

Gallwch ymateb trwy anfon eich ymatebion i:

HQDMailbox@wales.gsi.gov.uk

Neu drwy'r post at:

Matthew Tester
Yr Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ